Mid Wales Living Lab

# ROBUST

# RURAL-URBAN UPDATE


ISSUE 2 of 3
01/2020

Mae Rural-Urban Outlooks: Unlocking Synergies (ROBUST) yn brosiect ymchwil Ewropeaidd sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r rhagweithio sy'n digwydd rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Ei brif gynsail yw bod cysylltiadau cryf rhwng ardaloedd gwledig a threfol, sydd yr un mor gefnogol o'i gilydd, yn allweddol er mwyn gwireddu datblygiad doeth, crwn a chynhwysol ar gyfer Ewrop gynaliadwy. Dechreuodd prosiect ROBUST ym mis Mehefin 2017 a bydd yn rhedeg tan fis Mai 2021. Mae'r prosiect yn dod â 24 o bartneriaid Ewropeaidd ynghyd sy'n cynrychioli sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac ymarfer. Maent yn gweithio gyda 11 o Labordai Byw rhanbarthol a phump o Gymunedau Maes.

## Labordy Byw – crynodeb o'r Labordy Byw

Mae Cymru Wledig yn wynebu sawl her sylweddol: pellenigrwydd, seilwaith, mynediad i farchnadoedd a gwasanaethau, economi amaethyddol sy'n newid a dyfodol ar ôl Brexit. Sut mae modd i gysylltiadau gwledig-trefol fynd i'r afael â'r rhain? Nid yw modelau twf presennol dan arweiniad dinasoedd bob tro yn darparu atebion i ardaloedd gwledig. Mae Labordy Byw Canolbarth Cymru yn cysylltu ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod ffyrdd newydd i greu cysylltiadau gwledig-trefol cadarnhaol ymhell o'r ddinas.

Mae ein gwaith yn cyfuno ymchwil a chamau gweithredu ymarferol. Rydym ni'n canfod ac yn profi sut mae datblygu doeth yn arwain at dwf rhanbarthol cynhwysol. Rydym ni'n cynorthwyo ac yn asesu mentrau newydd ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid o ran creu gweledigaeth strategol ar gyfer Cymru wledig. Mae tair Cymuned Faes ROBUST yn ein helpu ni ehangu'r hyn rydym ni'n ei ddysgu. Mae Cymuned Faes Systemau Bwyd Cynaliadwy yn rhoi diwydiant Cymreig allweddol mewn persbectif Ewropeaidd. Drwy Gymuned Faes Seilwaith Cyhoeddus a Gwasanaethau Cymdeithasol rydym ni'n rhannu datrysiadau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Cymuned Faes Cysylltiadau Diwylliannol yn ein hatgoffa ni bod diwylliant Cymru a'r celfyddydau yn hanfodol i ffyniant rhanbarthau.




## Edrych yn ôl: Gweithgareddau 2019 – crynodeb o brif ddigwyddiadau a/neu ganfyddiadau 2019



Aeth y tîm ar daith yn 2019 ac ymweld ag 8 awdurdod lleol gwledig yng Nghymru. O'r gogledd i'r de, fe ddysgom ni sut mae rhannau amrywiol o'r wlad yn profi gwledigrwydd mewn ffyrdd gwahanol. Er y gwahaniaethau, fe geir sawl her gyffredin, na ellir eu datrys drwy gyfyngu polisi gwledig i amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Yn ogystal â golygfeydd godidog, mae ar Gymru Wledig angen gweledigaeth strategol er mwyn i bobl barhau i fyw ynddi. Fe glywsom ni sut mae cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol yn cynnwys atebion arloesol i fethiant yn y farchnad a chymryd risgiau i ddatblygu syniadau newydd.

Aethom ar daith arall, y tro hwn gyda Labordy Byw Swydd Gaerloyw i siarad am fwyd cynaliadwy.... mewn canolfan gwasanaethau traffordd. Mae Gwasanaethau Caerloyw yn gweithio mewn partneriaeth ag elusen leol ac yn cefnogi dros 130 o gynhyrchwyr o fewn 30 milltir. Roedd yr ymweliad yn rhywbeth i ni gnoi cil arno – yn enwedig i'r aelodau Labordy Byw yn Sir Fynwy sy'n edrych ar systemau caffael deinamig i gael bwyd lleol ar blatiau'r cyhoedd. Yn 2019 ni oedd yn arwain ar adroddiad canol tymor Cysylltiadau Diwylliannol ROBUST, sydd bellach ar gael ar-lein. Mae'r adroddiad yn cynnwys tair gwers ar gyfer cysylltiadau gwledig-trefol ac enghreifftiau yn seiliedig ar ymarfer:



1) Cydlynu bywyd diwylliannol drwy gysylltu pobl â gweithgareddau a digwyddiadau

2) Gwella hunaniaethau cynhwysol rhwng pobl a lle

3) Dathlu diwylliant gwledig fel rhywbeth unigryw, gwerthfawr a byw

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad a ddaeth â syniadau oddi ar y dudalen. Bu i gynhadledd wledig CLILC ym mis Medi ddatblygu agendau polisi. Dywedodd un o'r siaradwyr gwadd, yr Athro Michael Woods o Brifysgol Aberystwyth, fod polisïau yn aml iawn yn trin Cymru wledig fel "tref fethedig". Sut fedrwn ni, yn hytrach, ailddychmygu twf gwledig fel rhywbeth doeth a chynaliadwy? Yna, yn ein gweithdy Labordy Byw rhanbarthol cyntaf, galwodd budd-ddeiliaid o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol am ddull partneriaeth rhwng cymunedau a'r llywodraeth i ddelio â materion datblygu gwledig ar draws y sectorau a graddfeydd – ac archwilio'r rhwystrau i wneud i hyn weithio. Roedd y gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys: gwir cydgynhyrchu, newid systematig ac ymgysylltu â'r gymuned. Yn olaf, yn dilyn ein gwaith academaidd bu i ni gyflwyno ymchwil o Gymru mewn cynadleddau rhyngwladol, o'r Eidal i Aberdeen. Roedd 2019 yn flwyddyn brysur – ac mae mwy i ddod.

## Edrych ymlaen at 2020 – crynodeb o'r hyn fydd yn digwydd yn 2020

Beth fydd gan 2020 i'w chynnig i Gymru wledig? Mae Brexit ar y gorwel ond bydd yr heriau go iawn i'w gweld yn dilyn y materion ffurfiol. Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau ac yn edrych ar lunio atebion priodol. Bydd ein gwaith Labordy Byw yn y flwyddyn newydd yn cynnwys tair astudiaeth achos. Bydd cysylltu â phrosiectau yn Sir Fynwy yn ein helpu ni ddeall data sylweddol ar gyfer bwyd lleol cynaliadwy. Yn Sir Gaerfyrddin byddwn yn cysylltu ymchwil i'r economi sylfaenol â menter adfywio 'deg tref' newydd y cyngor. Yn Sir Benfro, yn dilyn prosiect celf Cysylltiadau Hynafol, byddwn yn dangos sut mae treftadaeth Geltaidd yn gallu bod yn rhywbeth cyfoes, a pham bod diwylliant yn bwysig ar gyfer creu lleoedd. Yn ogystal, byddwn yn creu cynllun i'r Labordy Byw fod yn sbardun i gyd-greu gweledigaeth bolisi uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig. Dilynwch ein cynnydd – a chadwch mewn cysylltiad.

## Local Contact Information



**Mid Wales Living Lab**

Tim Peppin
Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu Cynaladwy/ Director of Regeneration and Sustainable Development
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Welsh Local Government Association
tim.peppin@wlga.gov.uk
wlga.cymru / wlga.wales


## ROBUST Project Timeline

**The 8th Informed Cities Forum is taking place 2-3 April 2020. For more information, visit the Informed Cities website.**

*Opportunities to engage in the project*




## Learn more about ROBUST


ROBUST Project Coordinator
Prof.dr.ir. JSC (Han) Wiskerke
Professor and Chair of Rural Sociology
Wageningen University
info@rural-urban.eu


To learn more about the ROBUST project and to get the latest information about cutting-edge research on rural-urban issues visit www.rural-urban.eu

@RuralUrbanEurope @RuralUrbanEU Rural Urban Europe


ROBUST receives funding from the European Union's Horizon 2020 research and innovation programme under grant agreement No 727988. The content of this publication does not necessarily reflect the official opinion of the European Union. Responsibility for the information and views expressed therein lies entirely with the author(s).